

Public Document Pack



Neuadd y Sir / County Hall, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

Os yn galw gofynnwch am - If calling please ask for
Stephen Boyd

Ffôn / Tel: 01597 826374

Ffôn Symudol / Mobile:

Llythyru Electronig / E-mail: steve.boyd@powys.gov.uk

CABINET

Tuesday, 30th April, 2019

S U P P L E M E N T A R Y P A C K

1.	LLANFYLLIN ALL-THROUGH SCHOOL
-----------	--------------------------------------

Welsh Language version of Appendix B.

(Pages 3 - 6)

This page is intentionally left blank



CYNNIG I SEFYDLU YSGOL POB OED YN LLANFYLLIN

ADRODDIAD AR WRTHWYNEBIADAU

1. Cyflwyniad

Rhwng 27 Tachwedd 2018 tan 31 Ionawr 2019, bu Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol pob oed yn Llanfyllin, a hynny o 1 Medi 2020.

Ar 12 Mawrth 2019, cytunodd Cabinet y Cyngor i fwrw ymlaen gyda'r cynnig a chyhoeddwyd hysbysiadau statudol rhwng 20 Mawrth 2019 tan 17 Ebrill 2019.

2. Gwrthwynebiadau ddaeth i law

Derbyniwyd 1 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae'r dudalen ganlynol yn cynnwys manylion y gwrthwynebiad, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

3. Materion a godwyd fel gwrthwynebiad

Pwynt	Materion a godwyd	Ymateb y Cyngor
1	<p>Siomedig fod y Cyngor yn bwriadu israddio'r Gymraeg o fewn y system addysg – gobeithio y byddai cynlluniau'r Cyngor i uno'r ddwy ysgol yn atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg ac yn hwb i'r ffrwd ddwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn o ran effaith y cynnig ar y Gymraeg / addysg Gymraeg. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu israddio'r Gymraeg o fewn y system addysg – barn y Cyngor yw bod y cynnig yn rhoi cyfle i atgyfnerthu'r ddarpariaeth Gymraeg yn Llanfyllin, yn arbennig yn y sector uwchradd.</p> <p>Cynhaliodd y Cyngor asesiad effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses. Cafodd hwn ei ddiweddarau yn dilyn y cyfnod ymgynghori i adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Daeth yr asesiad i'r casgliad:</p> <p>“Gan y byddai'r cynnig yn golygu cadw'r ddarpariaeth cynradd ac uwchradd Cymraeg a Saesneg yn Llanfyllin, nid ydym yn rhagweld y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Rhagwelir y byddai rhoi'r cynnig hwn ar waith yn gwella trefniadau pontio rhwng cyfnodau allweddol a fyddai'n arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n parhau i dderbyn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.</p> <p>Mae hefyd yn bosibl y gallai rhoi'r cynnig hwn ar waith gael effaith bositif ar ethos Gymraeg y sector uwchradd yn Llanfyllin o ganlyniad i uno â'r ysgol gynradd sydd â chanran uwch o ddisgyblion Cymraeg nag Ysgol Uwchradd Llanfyllin.</p> <p>Yn ystod y cyfnod ymgynghori, clywyd pryderon am effaith y cynnig ar y Gymraeg, yn arbennig ar ethos Gymraeg Ysgol Gynradd Llanfyllin. Er i ni nodi'r pryderon hyn, barn y Cyngor yw y byddai'r cynnig hwn yn gyfle i wella ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth Gymraeg yn Llanfyllin ac yn atgyfnerthu'r ethos Gymraeg ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd.</p>
2	<p>Mae cynnig cadw'r categori ieithyddol yn 2C yn gyfle a gollwyd – dyma'r amser i wella categori ieithyddol yr ysgol i 2B. Cam yn ôl yw cadw categori ieithyddol yr ysgol yn 2C, gan danseilio</p>	<p>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar sefydlu ysgol pob oed yn Llanfyllin ar y sail y byddai'r ddarpariaeth uwchradd yn gategori 2C – fel y mae ar hyn o bryd – cafwyd gwybodaeth ar gategori ieithyddol arfaethedig yr ysgol newydd ar dudalen 17 y ddogfen ymgynghori.</p>

	<p>ymdrechion y gymuned leol a Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylw y dylai fod yn cymryd y cyfle i sefydlu darpariaeth categori 2B. Y Corff Llywodraethu fyddai'n gyfrifol am ddarparu pynciau o fewn yr ysgol, ac er y byddai disgwyl i lefel isaf y ddarpariaeth ddiwallu'r diffiniad ar gyfer darpariaeth categori 2C, byddai'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r corff llywodraethu'n parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol, gyda'r nod o gynnig darpariaeth 2B.</p> <p>Byddai'r Cyngor yn annog unigolion sy'n awyddus i weld y ddarpariaeth Gymraeg yn datblygu i weithio gyda'r ysgol newydd er mwyn ei hannog i ddatblygu addysg Gymraeg ymhellach yn yr ysgol ac i fanteisio ar unrhyw gyfle i ymuno ag un ai corff llywodraethu dros dro'r ysgol newydd neu'r corff llywodraethu parhaol.</p>
3	<p>Roedd Cynllun Strategol diweddaraf y Cyngor ar Gymraeg mewn Addysg yn cynnwys ymrwymiad i wella categori ieithyddol yr ysgol i 2B erbyn 2020. Pam nad yw'r Cyngor wedi cadw at ei addewid?</p>	<p>Mae'n wir fod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2014-17 yn cynnwys Nod Strategol i 'ddarparu parhad ieithyddol gadarn o ddarpariaeth Gymraeg ar draws cyfnodau allweddol addysg' gan nodi 'o fewn cyd-destun presennol addysg uwchradd yn y sir, disgwylir i'r chwech ysgol ddwy-ffrwd wneud yn fawr o'u darpariaeth Gymraeg gyda'r nod o ddod yn ysgolion Categori 2B erbyn 2020 er mwyn sicrhau fod disgyblion Cymraeg yn cael yr un dewis o bynciau â disgyblion Saesneg.'</p> <p>Ond erbyn hyn mae hyn yn anoddach oherwydd y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a bu rhaid cael opsiynau eraill er mwyn gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion Cymraeg a Saesneg trwy'r holl gyfnodau.</p> <p>Ym mis Mawrth 2015, cytunodd Cabinet y Cyngor ar Raglen Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd a fyddai'n cael ei harwain gan bedair blaenoriaeth. Un ohonynt oedd 'Adolygu Addysg Uwchradd yng Ngogledd Powys, gyda ffocws ar ddarpariaeth Gymraeg'. Dechreuodd y gwaith hwn yn ystod haf 2015, ac ym mis Medi 2015, penderfynodd y Cabinet y byddai'n 'ddymunol sefydlu ysgol neu ysgolion dwyieithog, categori 2A yng Ngogledd Powys'. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diweddaraf y Cyngor ar gyfer 2017-20, yn adlewyrchu'r nod hwn.</p> <p>Lluniwyd y Cynllun Strategol ar gyfer 2017-20 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a chael sêl bendith Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018.</p>

		<p>Yn y pen draw, y corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am ddarparu pynciau ym mhob ysgol. Er y byddai disgwyl i lefel isaf y ddarpariaeth a gynigir yn yr ysgol newydd ddiwallu'r diffiniad ar gyfer darpariaeth categori 2C, byddai'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r corff llywodraethu'n parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol, gyda'r nod o gynnig darpariaeth 2B.</p>
--	--	---